

CYFANSODDIADAU PWYLLGOR PRIF BWYLLGORAU

Prif Bwyllgorau'r Cyngor

- [Pwyllgor Archwilio a Risgiau](#)
- [Pwyllgor Polisiâu ac Adnoddau](#)
- [Pwyllgor Llywodraethu](#)
- [Pwyllgor Taliadau](#)

Prif Bwyllgorau'r Cyngor a'r Senedd

- [Y Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd](#)
- [Pwyllgor Cymrodoriaethau a Graddau Er Anrhydedd](#)
- [Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol](#)

Prif Bwyllgorau'r Senedd

- [Y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd](#)
- [Y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr](#)

PRIF BWYLLGORAU'R CYNGOR

CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Diben

- Sefydlwyd gan y Cyngor, i gynghori a chynorthwyo'r Cyngor i oruchwyllo amgylchedd sicrwydd a rheoli'r Brifysgol. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys:
 - Asesu effeithiolrwydd trefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli risg, rheoli, ac o ran y rheolaethau a gweithdrefnau mewnol at ddibenion hyrwyddo cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a chynghori'r Cyngor ynghylch hyn;
 - Goruchwyllo trefniadau archwilio allanol a mewnol, gan gynnwys cynghori'r corff llywodraethu ar benodi'r darparwyr archwilio, a goruchwyllo natur a chwmpas archwiliadau allanol a mewnol ac effeithiolrwydd y prosesau archwilio; a
 - Goruchwyllo agweddau archwilio ar ddatganiadau ariannol y Brifysgol, gan gynnwys barn yr archwilwyr allanol, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, y datganiad rheolaeth fewnol ac unrhyw fater perthnasol a godwyd yn llythyr rheoli'r Archwilwyr Allanol.

Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodaeth | Swyddogion Pwyllgor (yn bresennol) |
|--|--|
| 1 Aelod Lleyg (Cadeirydd), a fydd yn cael ei benodi gan y Cyngor ac o'i blith | Is-Ganghellor |
| 4 Aelod Lleyg, a benodir gan y Cyngor, bydd o leiaf dau ohonynt yn aelodau o'r Cyngor | Prif Swyddog Gweithredu a Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Gellir cyfethol 1 aelod annibynnol a does dim rhaid iddo fod yn aelod o'r Cyngor | Prif Swyddog Ariannol |
| | Archwilwyr Mewnol y Brifysgol |
| | Archwilwyr Allanol y Brifysgol |
| | Rheolwr Risg |
| | Rheolydd Ariannol y Grŵp |
| | Ymgynghorydd Llywodraethu (Prif Swyddog o'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol) |
| Nodiadau: Bydd o leiaf un aelod â phrofiad proffesiynol ym maes cyllid, cyfrifeg neu archwilio. Ni fydd Cadeirydd y Cyngor yn aelod o'r Pwyllgor. Ni ddylai aelodau fod yn unigolion sydd â chyfrifoldebau rheoli gweithredol o fewn y sefydliad nac yn aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. | Nodiadau: Caiff y Pwyllgor, fel mater o drefn, gynnal sesiynau cyfrinachol ar y camera ac eithrio unrhyw rai neu bob un arall sy'n cymryd rhan ac arsylwyr ar wahân i Ysgrifennydd y Pwyllgor. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cwrdd â'r archwilwyr Allanol a Mewnol heb fod rheolwyr y Brifysgol yn bresennol, heblaw am Ysgrifennydd y Pwyllgor. |

| | |
|--|--|
| <p>Ni ddylai aelodau fod yn aelodau o staff nac yn fyfyrwr yn y sefydliad, gan gynnwys staff a myfyrwyr sy'n aelodau o'r Cyngor.</p> <p>Bydd y broses o benodi i fod yn aelod o'r Pwyllgor a thelerau'r swydd yn unol ag Ordinhad 3.</p> | <p>Yr Ysgrifennydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg fydd yr Ysgrifennydd i'r Cyngor neu'r cyfryw berson arall a benodir gan y Cyngor.</p> <p>Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau lleig neu bartïon penodedig eraill fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd ar sail ad hoc.</p> |
|--|--|

Cylch Gorchwyl

Cyfrifoldeb i graffu ar berfformiad y Brifysgol, ac i roi cyngor ac/i argymell cynigion, yn y meysydd busnes canlynol:

3. Penodi, ailbenodi neu derfynu penodiad yr Archwilwyr Allanol a'r Pennaeth Archwilio Mewnol, telerau eu hymgysylltiad, gan gynnwys unrhyw gais am gyfyngiad atebolrwydd – mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am y rhain;
4. Perfformiad yr Archwilwyr Allanol a Mewnol, gan gynnwys cydymffurfiaeth y swyddogaeth â safonau perthnasol, unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gwrthrychedd, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u hymddiswyddiad neu eu diswyddo;
5. Problemau ac amheuan sy'n deillio o'r archwiliadau allanol interim a therfynol, gan gynnwys adolygiad o'r llythyr rheoli sy'n ymgorffori'r ymatebion rheoli, ac unrhyw faterion eraill y gall yr Archwilwyr Allanol ddymuno eu trafod (yn absenoldeb rheolwyr lle bo angen);
6. Archwilio agweddau ar y datganiadau ariannol blynyddol (sef eu hystyried yng ngŵydd yr Archwilwyr Allanol), gan gynnwys barn ffurfiol yr Archwilwyr, a'r datganiad ynghylch cyfrifoldebau aelodau a'r datganiad ynghylch rheolaeth fewnol, yn unol â Chyfarwyddiadau Cyfrifon Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried pa mor dryloyw ac agored yw'r adroddiadau o ran datganiadau ariannol drwyddynt draw;
7. Canfyddiadau mawr ymchwiliadau Archwilio Mewnol ac ymateb y rheolwyr; adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol; ac unrhyw faterion eraill y gall yr Archwilwyr Mewnol ddymuno eu trafod.
8. Gweithredu argymhellion sy'n seiliedig ar archwilio y cytunwyd arnynt, o ba bynnag ffynhonnell;
9. Trefniadau rheoli risg mewnol, gan gynnwys effeithiolrwydd y gofrestr risg gorfforaethol, y strategaeth risg a'r trefniadau archwaeth, rheoli a llywodraethu. Bydd hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r sefydliad yn gweithredu yn unol ag o. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y diwylliant a'r ymddygiad sy'n gyffredin o fewn y Brifysgol a threfniadau sy'n gallu effeithio ar enw da, megis rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau;
10. Digwyddiadau neu fethiannau difrifol (fel y'u diffinnir gan y Cod Rheoli Ariannol a'r Comisiwn Elusennau) a cholledion sylweddol yn nhermau eu hymchwiliad priodol, a bod yr archwilwyr Allanol a Mewnol, a lle bo'n briodol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu gyrff rheoleiddio eraill, wedi cael gwybod;
11. Adolygiadau archwilio priodol eraill nad ydynt wedi'u cynnal gan yr archwilwyr Allanol neu Fewnol, ond sydd â goblygiadau i drefniadau rheoli risg, rheoli a llywodraethu y sefydliad;
12. Materion sy'n ymwneud â safonau ac egwyddorion bywyd cyhoeddus ar gais y Cyngor; Cadeirydd y Cyngor; Is-gadeirydd y Cyngor; neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg;
13. Sicrwydd cyfnodol ar y dull a'r sylfaen dystiolaethol ar gyfer darparu sicrwydd blynyddol gan y Senedd i'r Cyngor ar ansawdd a safonau academaidd.
14. Unrhyw wallau materol (mwy na £50k) mewn ffurflenni treth a ffurflenni eraill.

Cyfrifoldeb i graffu ar berfformiad y Brifysgol, ac i argymell cynigion i'r Cyngor a/neu'r Is-Ganghellor fel y bo'n briodol, yn y meysydd busnes canlynol:

15. Unrhyw adroddiadau perthnasol o Archwilio Cymru, CCAUC a sefydliadau eraill.

Awdurdod i gymeradwyo argymhellion mewn perthynas â:

16. Natur a hyd a lled yr Archwiliad Allanol, ac unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio, sydd i'w cyflwyno gan yr Archwilwyr Allanol;
17. Asesiad risg archwilio, strategaeth a rhaglen yr Archwilwyr Mewnol a bydd yn gofyn am sicrwydd bod y cwmpas yn cwmpasu holl weithgareddau'r Brifysgol, ei holl reolaeth risg, rheolaeth a llywodraethu, ac unrhyw agwedd ar darparu gwerth am arian;
18. Defnyddio Archwilwyr Allanol ar gyfer gwaith nad yw'n waith archwilio; ac
19. Goruchwylio effeithiolrwydd polisiâu'r Brifysgol sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol ac ymddygiad arall, gan gynnwys Polisiâu'r Brifysgol ar Wrth-Dwyll a Gwrth-Lwgrwobrwyo, Atal Gwyngalchu Arian a hefyd goruchwylio effeithiolrwydd Y Cod Ymarfer Datgelu er Lles y Cyhoedd (chwythu'r Chwiban), mae hyn yn cynnwys cael gwybod am unrhyw faterion a gododd yn gysylltiedig â'r rhain, fel arfer unwaith y bydd yr ymchwiliadau perthnasol wedi dod i ben.

Dull Gweithredu

20. Bydd y Pwyllgor yn arfer goruchwylio hawl y Prif Swyddog Risg i gael mynediad uniongyrchol at Gadeirydd y pwyllgor Archwilio a Risg.
21. Awdurdodir y Pwyllgor gan y Cyngor i ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl. Fe'i hawdurdodir i ofyn am unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol ganddo gan unrhyw weithiwr, a chyfeirir at bob gweithiwr i gydweithredu ag unrhyw gais a wneir gan y pwyllgor.
22. Awdurdodir y Pwyllgor gan y Cyngor i gael cyngor proffesiynol cyfreithiol neu gyngor annibynnol arall, drwy Ysgrifennydd y Brifysgol (ac yn ddarostyngedig i derfyn o £5,000), a sicrhau presenoldeb rhai nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad ac arbenigedd perthnasol os yw'n ystyried hyn yn angenrheidiol, fel arfer mewn ymgynghoriad â'r Is-ganghellor a / neu Gadeirydd y Cyngor.
23. Bydd y Pwyllgor yn paratoi ei adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â blwyddyn ariannol y Brifysgol ac unrhyw faterion arwyddocaol hyd at ddyddiad paratoi'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Gadeirydd y Cyngor a'r Is-ganghellor, a bydd yn crynhoi'r gweithgarwch am y flwyddyn. Bydd yn rhoi barn y Pwyllgor am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol ar gyfer y canlynol:
 - a. rheoli risg, rheoli a llywodraethu;
 - b. cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian); a
 - c. rheoli a sicrhau ansawdd y data a ddefnyddir ac a gyflwynwyd at ddibenion rheoleiddio.Bydd y farn ar y materion hyn yn seiliedig ar y wybodaeth a'r asesiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor gan yr archwilwyr a chan reolwyr y Brifysgol.
24. Bydd y Pwyllgor yn hyrwyddo cydlynu rhwng yr Archwilwyr Allanol a Mewnol.
25. Bydd y Pwyllgor yn gweithio ac yn cysylltu yn ôl yr angen gyda'r holl bwyllgorau eraill gan ystyried yn benodol effaith y risg ar waith pwyllgorau eraill.
26. Gall yr Archwilwyr Allanol neu Fewnol ofyn am gyfarfod os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny.
27. Bydd y pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:
 - a. budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
 - b. cynaliadwyedd
 - c. cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2023

Dyddiad a chorff cymeradwyo: y Cyngor, 22 Tachwedd 2023

I'w adolygu: Hydref 2024

Cyfansoddiad Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Diben

- Fe'i sefydlwyd gan y Cyngor, i gynghori a chynorthwyo'r Cyngor ar faterion ariannol ac adnoddau'r Brifysgol, gan gynnwys dyrannu adnoddau, rheoli ariannol, buddsoddi a bancio, ystadau a rheoli seilwaith a rheoli adnoddau dynol.

Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodau | Swyddogion Pwyllgor (yn bresennol) |
|--|--|
| Cadeirydd y Cyngor ex officio | Prif Swyddog Gweithredu a Ysgrifennydd y Brifysgol (Ysgrifennydd y Pwyllgor) |
| Is-gadeirydd y Cyngor ex officio | Prif Swyddog Ariannol |
| y Llywydd a'r Is-Ganghellor ex officio | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| y Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth ex officio | Cyfarwyddwr Ystadau |
| Cadeirydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio ex officio | Cyfarwyddwr yr Adran Cynllunio Strategol |
| un aelod o'r Cyngor a benodir gan y Cyngor o blith ei aelodau staff academiaidd | Ymgynghorydd Llywodraethu (Prif Swyddog o'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol) |
| dau aelod lleig a benodir gan y Cyngor | |
| Llywydd Undeb y Myfyrwyr ex officio | |
| un cynrychiolydd sy'n fyfyrwr, a enwebir gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr, o blith swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr | |
| | |
| Nodiadau: Cadeirydd y Cyngor fydd cadeirydd y Pwyllgor neu gall ddirprwyo'r rôl hon i un o aelodau lleig y Pwyllgor Bydd y broses o benodi i fod yn aelod o'r Pwyllgor a thelerau'r swydd yn unol ag Ordinhad 3. Yn unol â'r Cod Rheoli Ariannol, dylai fod gan o leiaf un aelod o'r pwyllgor brofiad perthnasol o gyllid. Ni chaiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau hefyd (yn unol â phwynt 122 y Cod Rheoli Ariannol). | Nodiadau: Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau lleig neu bartion penodedig eraill fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd ar sail ad hoc. |

Adeg Cynnal

3. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd ddigon o weithiau ac ar adegau priodol yn y flwyddyn academiaidd i alluogi adrodd am fusnes yn amserol i'r Cyngor ac i'r rheoleiddwyr allanol.

Cylch Gorchwyl

Cyfrifoldeb i graffu ar berfformiad y Brifysgol, ac argymhell cynigion, yn y meysydd busnes canlynol:

Strategaeth, Risg a Dyrannu Adnoddau

4. Cynigion yr Is-Ganghellor ar gyfer cyflawni nodau strategol y Brifysgol, yn benodol drwy sicrhau aliniad adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol, corfforol, digidol a dynol) gyda Chynllun Strategol y Brifysgol a rhoi cyngor i'r Cyngor ynghylch blaenoriaethu cynigion sy'n cystadlu yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael;
5. Y risgiau strategol sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor fel y penderfynir gan bolisi rheoli risg a chofrestr risgiau'r Brifysgol;
6. Monitro'r holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol, gan sicrhau y rhoddir sylw i bryderon am berfformiad;
7. Yn dilyn cyngor gan yr Is-ganghellor, gwneud argymhellion i'r Cyngor ar ddyrannu adnoddau'r Brifysgol, gan gynnwys ymrwymadau yn y dyfodol, i gefnogi cyflawni strategaeth y Brifysgol.

Rheolaeth ariannol

8. Adolygu a monitro strategaeth ariannol a chynlluniau'r Brifysgol, gan sicrhau eu bod yn bodloni gofynion rheoleiddiol y Comisiwn Elusennau, CCAUC a'i olynwyr;
9. Adolygu datganiadau ariannol blynyddol drafft y sefydliad ar gyfer adrodd arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac argymhelliad i'r Cyngor;
10. Gwneud argymhellion i'r Cyngor ar bennu cyllideb flynyddol y Brifysgol ac, yn unol â strategaeth sydd wedi ei chymeradwyo, gan ystyried cyflwr ariannol y Brifysgol;
11. Trosolwg o gynlluniau cronfa bensiwn y Brifysgol o ran yr effaith ar sefyllfa ariannol a strategaeth y Brifysgol, trwy dderbyn adroddiad blynyddol;
12. Adolygu, a gwneud argymhellion i'r Cyngor fel sy'n briodol, ar unrhyw amrywiadau i'r gyllideb flynyddol ac achosion busnes nad ydynt wedi'u cynnwys ynddi;
13. Gwneud argymhellion i'r Cyngor ar gyllideb flynyddol y cynllun buddsoddi cyfalaf ac ar achosion busnes neu amrywiadau i'r gyllideb cynllun buddsoddi cyfalaf blynyddol y cytunwyd arni;
14. Ystyried, yn flynyddol, y dyraniad a roddwyd gan y Brifysgol i Undeb y Myfyrwyr, a derbyn a monitro cyfrifon a chyllidebau blynyddol yr Undeb, gan dderbyn cyngor yn ôl yr angen gan yr Is-Ganghellor;
15. Sicrhau bod fforddiadwyedd, a risgiau yn gysylltiedig ag ymrwymadau ariannol wedi'u hasesu yn unol â'r Cod rheoli Ariannol (neu ag unrhyw reoliadau dilynol)
16. Bodloni ei hun bod cyfanswm adnodd y Brifysgol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy, at hyn, y ceisir ac y cyflawnir gwerth am arian wrth ddefnyddio'r holl gronfeydd;
17. Ystyried unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â lles ariannol y Brifysgol yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor;
18. Awdurdod i gymeradwyo'r canlynol:

- a. Rheoliadau Ariannol a Dirprwyaeth Ariannol Fframwaith Awdurdod y Brifysgol (Ile mae'r cofnodion hynny'n ymwneud ag awdurdodau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor neu'n is);
- b. cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol.

Buddsoddiad a Bancio

19. Craffu ar berfformiad ac argymell cynigion mewn perthynas â strategaeth ac egwyddorion buddsoddi'r Brifysgol;
20. Awdurdod i gymeradwyo'r canlynol:
 - a. gwneud argymhellion i'r Cyngor ar benodi bancwyr y Brifysgol ac ymgynghorwyr ariannol proffesiynol eraill;
 - b. gwariant, buddsoddi, dadfuddsoddi, peidio â buddsoddi, benthyciadau, prydlesi a dyledion cyllid yn unol â'r trothwyon a nodir yn y Cynllun Dirprwyo, ac i wneud argymhellion i'r Cyngor ar gynigion sydd uwchlaw'r terfyn y gall y Pwyllgor ei awdurdodi;
 - c. Datganiad Rheoli'r Trysorlys a'r strategaethau a'r polisïau ar gyfer rheoli arian parod, buddsoddi a benthyca;
 - d. yn dilyn argymhelliad gan yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio, y strategaeth fuddsoddi gyffredinol a'r awdurdod i fuddsoddi yn unol â'r strategaeth, gan gynnwys penodi rheolwyr a chynghorwyr ar fuddsoddi;
 - e. yn dilyn argymhelliad gan yr Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio, llofnodwyr i ymgymryd â threfniadau buddsoddi a llofnodwyr banc;
 - f. penodi prif yswiriwr corfforaethol y Brifysgol;
 - g. *adroddiadau sicrwydd blynyddol sy'n ymwneud â Rheolaeth y Trysorlys.*

Gweithgareddau Masnachol

21. Derbyn adroddiadau am ran y Brifysgol mewn cyd-fentrau ac is-gwmnïau, a'u perfformiad;
22. Awdurdod i gymeradwyo'r canlynol:
 - a. creu, tynnu'n ôl o neu roi'r gorau i gwmnïau deillio, neu fuddsoddi mewn ymgymeriad cysylltiedig yn unol â'r trothwyon a nodir yn y Cynllun Dirprwyo;
 - b. penodi Cyfarwyddwyr i Gyd-Fenter

Rheoli Adnoddau Dynol

23. Craffu ar berfformiad y Brifysgol, ac argymell cynigion sy'n ymwneud â strategaeth adnoddau dynol, risg ac alinio adnoddau;
24. Awdurdod i gymeradwyo'r canlynol:
 - a. adroddiadau sicrwydd blynyddol sy'n ymwneud â Rheolaeth Pobl.

Isadeiledd

25. Adolygu cynlluniau a chynigion ar gyfer cynnal a chadw a datblygu seilwaith ac ystâd Prifysgol Caerdydd gan gynnwys gwybodaeth ac adnoddau digidol sy'n sicrhau bod yr ystâd yn cael ei rheoli mewn modd cynaliadwy a chynghori'r Cyngor ar adnoddau ac angen strategol a blaenoriaeth pob cynllun mawr ar gyfer datblygiad neu adnewyddiadau adeiladau newydd a gyflwynwyd gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol;
26. Derbyn adroddiad blynyddol am berfformiad yr ystâd;
27. Craffu ar berfformiad ac argymell cynigion mewn perthynas â gwaith y Brifysgol tuag at gyflawni sero-net carbon a'i strategaeth a'i cynllun rheoli carbon;

28. Awdurdod i gymeradwyo'r canlynol:

- a. gwaredu asedau yn unol â'r trothwyon a nodir yn y Cynllun Dirprwyo;
- b. caffael rhydd-ddaliadaeth neu dir/eiddo lesddaliad hir, prydlesi newydd neu estyniadau i brydlesi presennol yn unol â'r trothwyon a nodir yn y Cynllun Dirprwyo.

Dull Gweithredu

29. Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu'r Is-bwyllgorau canlynol:

- a. Is-bwyllgor Buddsoddiadau a Bancio
- b. Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol

30. Bydd y pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:

- a. budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
- b. cynaliadwyedd
- c. cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2023

Dyddiad a chorff cymeradwyo: y Cyngor, 22 Tachwedd 2023

I'w adolygu: Hydref 2024

Cyfansoddiad Y Pwyllgor Llywodraethu

Diben

- Sefydlwyd y Pwyllgor Llywodraethu gan y Cyngor, i gynghori a chynorthwyo'r Cyngor ar effeithiolrwydd strwythur llywodraethu a fframwaith y Brifysgol, gan gynnwys comisiynu adolygiadau effeithiolrwydd y Cyngor yn ôl y gofyn; lefel cydymffurfiaeth gan y Brifysgol â gofynion gorfodol deddfwriaeth a rheoliadau eraill, gan gynnwys darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg; a materion cyfansoddiadol a chyfreithiol, gan gynnwys y Siarter, Statudau ac Ordinhadau.

Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodaeth | Swyddogion Pwyllgor (yn bresennol) |
|--|--|
| Cadeirydd y Cyngor | Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol (Ysgrifennydd) |
| Is-gadeirydd y Cyngor | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| Y Llywydd a'r Is-Ganghellor neu enwebai | Ymgynghorydd Llywodraethu (Prif Swyddog o'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol) |
| Tri aelod lleig ychwanegol a benodir gan y Cyngor ac o'i blith | |
| Dau aelod a benodir gan y Senedd ac o'i phlith | |
| Llywydd Undeb y Myfyrwyr, neu enwebai o blith y Swyddogion Etholedig | |
| Y Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth (cyfetholwyd) | |
| <u>Nodiadau:</u> Cadeirydd y Cyngor fydd cadeirydd y Pwyllgor neu gall ddirprwyo'r rôl hon i un o aelodau lleig y Pwyllgor. Bydd y broses o benodi i fod yn aelod o'r Pwyllgor a thelerau'r swydd yn unol ag Ordinhad 3. | <u>Nodiadau:</u> Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau lleig neu bartïon penodedig eraill (e.e. archwilwyr allanol) fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd ar sail ad hoc. |

Cylch Gorchwyl

Cyfrifoldeb i graffu ar berfformiad y Brifysgol, ac argymhell cynigion, yn y meysydd busnes canlynol:

- Strwythur llywodraethu a fframwaith y Brifysgol, gan gynnwys comisiynu adolygiadau o effeithiolrwydd y Cyngor yn ôl y gofyn, a monitro cwblhau unrhyw argymhellion sy'n deillio o adolygiadau o'r fath.
- Lefel cydymffurfio'r Brifysgol â gofynion gorfodol deddfwriaeth a rheoliadau eraill, gan gynnwys darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg, Concordat UUK i Gefnogi

Gonestrwydd Ymchwil, Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986, diogelu data, a deddfwriaeth iechyd, diogelwch a llesiant.

5. Goruchwylio effeithiolrwydd a pherthnasedd y Siarter, Statudau ac Ordinhadau a materion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill sy'n ymwneud â threfn lywodraethu'r Brifysgol.
6. Enwebiadau ac Apwyntiadau, gan gynnwys:
 - a. trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth i sicrhau gweithrediadau llywodraethu effeithiol parhaus, gan gynnwys mewn perthynas â'r trosglwyddiad rhwng Cadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor;
 - b. cadw dan adolygiad cyfansoddiad aelodaeth y Cyngor, gan gynnwys ei broffil yn erbyn y matrices sgiliau y cytunwyd arno a sut mae'n sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb o ran yr aelodau;
 - c. derbyn adborth trwy arfarniadau blynyddol o aelodau;
 - d. goruchwylio datblygiad aelodau unigol a rhaglennol;
 - e. monitro swyddi gwag aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig, a chyfnodau swydd cadeiryddion pwyllgorau yn flynyddol;
 - f. sicrhau bod yr Is-bwyllgor Enwebiadau yn hysbysebu swyddi gwag sydd ar ddod fel y bo'n briodol, ac yn argymhell ymgeiswyr addas i'r Cyngor ac yn llenwi swyddi gwag yn brydlon, gan gynnwys penodi Canghellor, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor;
 - g. derbyn adroddiadau am wybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â chyfansoddiad aelodaeth y Cyngor a'i bwyllgorau;
 - h. ystyried arferion a chanllawiau da y sector gan gyrrff allweddol, a'r camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau mewn arfer y cytunwyd arnynt;
 - i. adolygu ceisiadau i ddileu aelodaeth aelod o'r Pwyllgor.
7. Cydymffurfio â chyfraith elusennau ac arferion da o ran budd-daliadau a threuliau Aelodau'r Cyngor.
8. Argymhellion o adroddiadau archwilio am wasanaethau llywodraethu'r Brifysgol a'r goblygiadau ehangach ar gyfer strwythur a fframwaith llywodraethu'r Brifysgol.

Awdurdod i gymeradwyo argymhellion mewn perthynas â'r adroddiadau canlynol ar ran y Cyngor:

9. Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986: Adroddiad Cydymffurfio - Datganiad Deiliad y Sefydliad
10. Datganiad Blynyddol ynghylch Uniondeb Ymchwil
11. Adroddiad blynyddol: Monitro'r Gymraeg
12. Adroddiad Blynyddol Prevent
13. Datganiad Blynyddol Deddf Caethwasiaeth Fodern
14. Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
15. Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth
16. Datganiad Polisi ar Ddiogelwch, Iechyd, yr Amgylchedd a Lles

Dull Gweithredu

17. Bydd y Pwyllgor yn cyfeirio materion sydd â goblygiadau strategol ac o ran adnoddau i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a'r materion hynny sydd â goblygiadau academiaidd i'r Senedd ac sy'n gallu gwaethygu pryderon ynghylch y risg o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

18. Gall y Pwyllgor sefydlu gweithgorau o'r fath fel sy'n angenrheidiol i gynghori ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
19. Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu'r Is-bwyllgorau canlynol:
 - a. Pwyllgor Safonau Biolegol
 - b. Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
 - c. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant
 - d. Is-bwyllgor Enwebiadau
 - e. Y Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored
20. Bydd y pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:
 - a. budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
 - b. cynaliadwyedd
 - c. cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2023

Dyddiad a chorff cymeradwyo: Cyngor, 22 Tachwedd 2023

I'w adolygu: Hydref 2024

Cyfansoddiad Y Pwyllgor Taliadau

Diben

- I ddatblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol i'r Cyngor ar gyfer talu am dâl, budd-daliadau ac amodau cyflogaeth uwch swyddogion y Brifysgol, gan gynnwys tâl, budd-daliadau ac amodau cyflogaeth y Llywydd a Rhag Is-Ganghellorion y Colegau ac aelodau o staff sy'n adrodd yn uniongyrchol atynt, y lwfansau ar gyfer deiliaid eraill o swyddi cylchol y Brifysgol a'r paramedrau ar gyfer tâl a buddion uwch staff y Brifysgol.

Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodaeth | Swyddogion Pwyllgor (yn bresennol) |
|--|--|
| Is-gadeirydd y Cyngor | Pennaeth Arweinyddiaeth a Datblygu Staff neu aelod arall o'r Tîm adnoddau Dynol fel y bo'n briodol (Ysgrifennydd) |
| Cadeirydd y Cyngor | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| Dau aelod lleyg o blith y Cyngor | |
| <p>Nodiadau:</p> <p>Gellir penodi un aelod annibynnol arall nad oes angen iddo fod yn aelod o'r Cyngor ond a fydd â phrofiad proffesiynol mewn tâl a gwobrwyo, pan nodir bod angen.</p> <p>Ni fydd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau yn Gadeirydd y Cyngor. Y Cyngor fydd yn penodi cadeirydd o blith yr aelodau lleyg. Bydd y Cadeirydd yn llywyddu'r cyfarfod neu yn ei absenoldeb yn trefnu i aelod lleyg arall weithredu fel Cadeirydd.</p> <p>Gall y Cadeirydd enwebu Is-Gadeirydd o blith aelodau'r Pwyllgor. Ni ddylai'r unigolyn fod yn Gadeirydd ar y Cyngor.</p> <p>Bydd y broses o benodi i fod yn aelod o'r Pwyllgor a thelerau'r swydd yn unol ag Ordinhad 3</p> | <p>Nodiadau:</p> <p>Gall y Pwyllgor wahodd yr Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth i fynychu rhan o gyfarfodydd y Pwyllgor, i ddarparu gwybodaeth ac i ateb unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor.</p> <p>Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau lleyg neu bartïon penodedig eraill (e.e. archwilwyr allanol) fel y bo'n briodol, i fynd i gyfarfodydd ar sail ad hoc.</p> |

Adeg Cynnal

- Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar ei amserlen ei hun ar gyfer cyfarfodydd ond disgwylir iddo gwrdd o leiaf ddwywaith bob blwyddyn

Cworwm

- Mae'r cworwm ar gyfer y Pwyllgor Taliadau yn dri aelod lleyg.

Cylch Gorchwyl

Cyfrifoldeb i graffu ar berfformiad y Brifysgol, ac argymhell cynigion, yn y meysydd busnes canlynol:

5. Strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol i gwmpasu tâl, buddion ac amodau cyflogaeth uwch swyddogion y Brifysgol.
6. Adolygu tâl, budd-daliadau ac amodau cyflogaeth y Llywydd a'r Is-Ganghellor a'r rheini sy'n adrodd yn uniongyrchol iddo/iddi, a Rhag Is-Gangellorion y Colegau, gan ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, budd-daliadau ac amodau cyflogaeth yn y sector Prifysgolion ac mewn manau eraill fel y bo'n briodol, a metrigau a data perfformiad perthnasol.
7. Adolygu penderfyniadau'r Pwyllgor Athrawon ac Uwch Gyflogau, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau dewisol i dâl a wneir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor hwnnw.
8. Derbyn adroddiad ar unrhyw delerau diswyddo y cytunwyd arnynt ar gyfer uwch staff y Brifysgol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Athrawon ac Uwch Gyflogau.
9. Hyrwyddo cyfrifoldebau'r Brifysgol dros gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu hystyried yn llawn ym mhob mater sy'n ymwneud â thâl yr holl staff sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a'r Pwyllgor Athrawon ac Uwch Gyflogau.
10. Derbyn ac ystyried adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog ac ar gyflog cyfartal yn y Brifysgol.

Awdurdod i gymeradwyo argymhellion mewn perthynas â:

11. Pennu taliadau, buddion ac amodau cyflogaeth y Llywydd a'r Is-Ganghellor a'r rhai sy'n adrodd iddo/iddi yn uniongyrchol
12. Pennu'r strategaeth, y polisi a'r paramedrau ar gyfer adolygu a phenderfynu ar lwfansau i ddeiliaid eraill swyddi cylchol y Brifysgol, gan gynnwys Deoniaid a Phenaethiaid Ysgolion.
13. Gosod y strategaeth, y polisi a'r paramedrau ar gyfer adolygu a phenderfynu ar dâl a manteision uwch staff y Brifysgol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Athrawon ac Uwch Gyflogau;
14. Gosod y strategaeth, polisi a pharamedrau ar gyfer telerau diswyddo i'r holl uwch staff; ystyried a chymeradwyo telerau diswyddo ar gyfer yr Is-Ganghellor a'r rheini sy'n adrodd yn uniongyrchol iddo/iddi, a Rhag Is-Gangellorion y Colegau, ar derfynu eu cyflogaeth gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
15. Sicrhau annibyniaeth briodol i'r swyddogaeth, adolygu tâl y Pennaeth Archwilio Mewnol gan ystyried argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg
16. Cytuno ar fframwaith gwaith blynyddol ac adolygu ac adrodd ar y cynnydd drwy ddarparu adroddiad blynyddol (i'r Cyngor a Datganiad Ariannol y Brifysgol) sy'n dryloyw ac yn ateb gofynion llywodraethu da;
17. Cytuno pa wybodaeth am waith y Pwyllgor a threfniadau gwobrwyo gweithredol y dylid eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraethu'r Brifysgol yn ogystal â'r fframwaith blynyddol o waith a'r adroddiad blynyddol.

Dull Gweithredu

18. Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu'r Is-bwyllgorau canlynol:
 - a. Pwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-Aelodau Staff
19. Bydd y pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:
 - a. budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
 - b. cynaliadwyedd
 - c. cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Ebrill 2024

Dyddiad a chorff cymeradwyo: y Cyngor, 11 Gorffennaf 2024

I'w adolygu: Ebrill 2025

PRIF BWYLLGORAU'R CYNGOR A'R SENEDD

Cyfansoddiad Y Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd

Diben

- Ddyfarnu teitlau uwch ddarlithydd, darllenydd, cadeirydd personol, uwch gymrawd ymchwil, prif gymrawd ymchwil a chymrawd ymchwil athrawol i staff academaidd yn unol â'r gweithdrefnau ac adolygu polisi a gweithdrefnau ar gyfer dyrchafu staff academaidd.
- Bydd y Pwyllgor yn gyd-bwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd.

Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodaeth | Swyddogion Pwyllgor (yn bresennol) |
|---|--|
| y Llywydd a'r Is-Ganghellor | Pennaeth Arwain a Datblygu Staff (Ysgrifennydd) |
| Y Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth | Swyddog Datblygu Sefydliadol a Staff (Dyrchafiadau) |
| Y Rhag Is-Gangellorion sy'n benaethiaid coleg | |
| 6 o athrawon a benodir gan y Senedd, 2 o bob coleg | |
| Nodiadau: Y Llywydd a'r Is-Ganghellor fydd yn cadeirio'r Pwyllgor neu gall ddirprwyo'r rôl hon i'r Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth neu'r Rhag Is-Ganghellor. Bydd y broses o benodi i fod yn aelod o'r Pwyllgor a thelerau'r swydd yn unol ag Ordinhad 3. | Nodiadau: Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau lleig neu bartïon penodedig eraill (e.e. archwilwyr allanol) fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd ar sail ad hoc. |

Cylch Gorchwyl

Cyfrifoldeb i graffu ar berfformiad y Brifysgol, ac argymhell cynigion, yn y meysydd busnes canlynol:

- Adolygu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer dyrchafu staff academaidd, gan gynnwys sefydlu gweithdrefnau apelio;
- Ystyried ceisiadau gan aelodau'r staff academaidd mewn perthynas â:
 - Dyrchafiad i swydd uwch-ddarlithydd, darllenydd a chadair bersonol
Bydd y pwyllgor yn ystyried ceisiadau ar gyfer dyrchafiad i swydd uwch-ddarlithydd, darllenydd a chadair bersonol yn unol â'r gweithdrefnau. Bydd y Pwyllgor yn rhoi dyrchafiad i swydd uwch-ddarlithydd, darllenydd a chadair bersonol ar ôl cwblhau'r prosesau perthnasol a phan mae'n penderfynu bod hynny'n briodol.
 - Dyrchafiad i swydd uwch-gymrawd ymchwil, prif gymrawd ymchwil a chymrawd ymchwil athrawol

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ceisiadau ar gyfer dyrchafiad swydd uwch-gymrawd ymchwil, prif gymrawd ymchwil a chymrawd ymchwil athrawol yn unol â'r gweithdrefnau. Bydd y Pwyllgor yn rhoi dyrchafiad i swydd uwch-gymrawd ymchwil, prif gymrawd ymchwil a chymrawd ymchwil athrawol ar ôl cwblhau'r prosesau perthnasol a phan mae'n penderfynu ei bod yn briodol.

6. Bydd y Pwyllgor yn ymarfer y pwerau a gaiff eu dirprwyo iddo gan y Senedd a'r Cyngor.

Awdurdod i gymeradwyo argymhellion mewn perthynas â:

7. Dyfarnu teitlau academiaidd uwch ddarlithydd, darllenydd, cadeirydd personol, uwch gymrawd ymchwil, prif gymrawd ymchwil a chymrawd ymchwil athrawol.
8. Dogfennau llunio polisiau mewn perthynas â dyrchafu staff academiaidd.

Dull Gweithredu

9. Bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer y Senedd a'r Cyngor.
10. Bydd y Pwyllgor yn cyfeirio materion gyda goblygiadau strategol ac adnoddau i'r Cyngor, a'r materion hynny sydd â goblygiadau academiaidd i'r Senedd.
11. Gall y Pwyllgor sefydlu gweithgorau o'r fath fel sy'n angenrheidiol i gynghori ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
12. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:
 - a. budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
 - b. cynaliadwyedd
 - c. cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2022

Dyddiad a chorff cymeradwyo: Cyngor 24 Tachwedd 2022 a Senedd 30 Tachwedd 2022

I'w adolygu: Hydref 2023

Cyfansoddiad Y Pwyllgor Cymrodoriaethau A Graddau Er Anrhydedd

Diben

- Goruchwyllo'r broses ar gyfer dyfarnu Cymrodoriaethau Er Anrhydedd a Graddau Er Anrhydedd a chynghori'r Senedd a'r Cyngor ar y materion hyn.

Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodaeth | Yn bresennol |
|--|--|
| Is-Ganghellor (yn y Gadair) | Y Prif Swyddog Gweithredu a Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Cadeirydd y Cyngor neu ei h/enwebai a dynnwyd o blith aelodau lleyg y Cyngor | Y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr |
| Ail aelod lleyg o'r Cyngor, a etholwyd gan y Cyngor mewn modd o'i ddewis, i wasanaethu am dymor heb fod yn hwy na thair blynedd | Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfyrwyr |
| Y Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth | |
| Y Rhag Is-Ganghellor, Addysg a Myfyrwyr | |
| Chwe aelod o staff academiaidd i gael eu hethol gan y Senedd, bydd pob un ohonynt yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd, gan gynnwys dau aelod (bydd o leiaf un ohonynt yn Bennaeth Ysgol) o bob un o'r Colegau | |
| Llywydd Undeb y Myfyrwyr | |
| | <u>Nodiadau:</u> Bydd Ysgrifennydd y Pwyllgor yn cael ei enwebu gan y Cadeirydd. |

Cylch Gorchwyl

Cyfrifoldeb i graffu ar berfformiad y Brifysgol, ac argymell cynigion, yn y meysydd busnes canlynol:

- gwahodd Aelodau'r Brifysgol (fel y'i diffinnir yn ordinhad 2¹) i enwebu unigolion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dyfarnu Cymrodoriaeth Er Anrhydedd Prifysgol Caerdydd; ac am ddyfarniad Doethur er Anrhydedd Prifysgol Caerdydd

¹ Ordinhad 2 - Aelodau'r Brifysgol

Bydd y canlynol yn Aelodau Prifysgol Caerdydd

- (1) y Canghellor, y Rhag Ganghellorion, y Llywydd a'r Is-Ganghellor, Cadeirydd y Cyngor a Swyddogion eraill;
- (2) aelodau'r Cyngor a'r Senedd;
- (3) gweithwyr Prifysgol Caerdydd;
- (4) myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'r sefydliadau a'i rhagflaenodd;
- (5) unigolion eraill fel y'u diffinnir gan benderfyniad y Cyngor.

4. Ystyried yr holl gyflwyniadau a dderbyniwyd yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer dyfarnu Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Graddau er Anrhydedd, gan gadarnhau'r rhai y dylid cynnig dyfarniadau o'r fath iddynt a sicrhau y gwneir gwahoddiadau o'r fath
5. Parhau i adolygu'r meini prawf ar gyfer dyfarnu Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Graddau er Anrhydedd, gan hysbysu'r Senedd a'r Cyngor o unrhyw newidiadau a wnaed
6. Rhoi gwybod i'r Senedd ac i'r Cyngor am yr unigolion sydd wedi cadarnhau eu bod yn derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd Prifysgol Caerdydd neu i dderbyn Gradd er Anrhydedd
7. Sicrhau cyhoeddi cofrestr ddiweddar Graddedigion er Anrhydedd Prifysgol Caerdydd neu ei chyrrff rhagflaenol
8. Adolygu a diweddarau yn ôl yr angen gweithdrefnau a threfniadau seremonïol ar gyfer rhoi Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Graddau er Anrhydedd y Brifysgol
9. Ystyried cynigion yr Is-Ganghellor neu'r Prif Swyddog Gweithredu i ddi-ddymu Gradd er Anrhydedd neu Gymrodoriaeth er Anrhydedd a ddyfarnwyd.

Dull Gweithredu

10. Bydd y pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:
 - a. budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
 - b. cynaliadwyedd
 - c. cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2023

Dyddiad a chorff cymeradwyo: Cyngor 22 Tachwedd 2023 a Senedd 8 Tachwedd 2023

I'w adolygu: Hydref 2024

Cyfansoddiad Pwyllgor Dyfarniadau A Chynnydd Y Brifysgol

1. Diben

- 1.1 Bydd Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol, o dan awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Senedd a'r Cyngor, yn derbyn i raddau'r Brifysgol neu yn cyflwyno diplomâu, tystysgrifau neu ddyfarniadau academaidd eraill y Brifysgol i'r personau sydd wedi cymhwyso ar gyfer dyfarniad o'r fath yn unol â Statudau, Ordiniannau, a rheoliadau neu weithdrefnau academaidd.

2. Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- 2.1 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodau | Swyddogion y Pwyllgor |
|--|---|
| Y Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) (Cadeirydd) <ul style="list-style-type: none">Claire Morgan | Pennaeth Llywodraethu Addysg (Ysgrifennydd) |
| Deon Coleg (Addysg a Myfyrwyr), a benodir gan y Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) <ul style="list-style-type: none">Dai John | Bennaeth Gweithrediadau'r Gofrestrfa |
| Cofrestrydd Academaidd <ul style="list-style-type: none">Simon Wright | |

- 2.2 Gall aelod o'r Pwyllgor drefnu i rywun arall sydd â'r uwch-arbenigedd a'r arbenigedd angenrheidiol i fynychu yn eu lle os nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod. Fel arfer, y person(au) a ddaw yn lle aelod fydd:

- y Dirprwy Is-Ganghellor a Phennaeth neu Rag Is-Ganghellor ar gyfer y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr;
- Deon Coleg arall (Addysg a Myfyrwyr) ar gyfer y Deon Coleg penodedig (Addysg a Myfyrwyr);
- Deon Coleg (Addysg a Myfyrwyr) ar gyfer y Cofrestrydd Academaidd.

- 2.3 Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau lleyg neu bartion penodedig eraill fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd ar sail ad hoc.

3. Adeg Cynnal

- 3.1 Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ac ar adegau priodol ac yn ddigon aml yn ystod y flwyddyn academaidd i allu cyflwyno dyfarniadau'n amserol i'r rhai sy'n gymwys, sef pum cyfarfod y flwyddyn academaidd fel arfer.

4. Cylch Gorchwyl

- 4.1 Bydd Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol, yn ôl yr awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Senedd a'r Cyngor:

1. yn derbyn i raddau'r Brifysgol neu yn cyflwyno diplomâu, tystysgrifau neu ddyfarniadau academaidd eraill y Brifysgol i'r personau sydd wedi cymhwyso ar gyfer dyfarniad o'r fath yn unol â Statudau, Ordinhadau, a rheoliadau neu weithdrefnau academaidd;
2. yn diddymu penderfyniadau i dderbyn personau i ddyfarniadau:
 - (i) er mwyn cywiro camgymeriadau rhifyddol neu gamgymeriadau ffeithiol eraill;
 - (ii) yn ôl argymhelliad Byrddau Arholi sydd wedi'u hailgynnull.
- 4.2 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd a'r Cyngor o wobrau a roddwyd felly a bydd rhestr o enwau personau y dyfarnwyd gradd, diploma, tystysgrif neu wobwr academaidd arall y Brifysgol iddynt yn cael ei chynnal gan y Gofrestrfa.
- 4.3 Bydd y Pwyllgor yn derbyn argymhellion gan Fyrddau Archwilio mewn perthynas â'r holl apeliadau y cyfeiriwyd at Fwrdd Archwilio sydd wedi'i ailymgynnull o dan y Weithdrefn Gwirio ac Apeliadau. Bydd argymhellion o'r fath yn cyd-fynd â chyfiawnhad dros amrywio, neu gynnal y penderfyniad blaenorol.
- 4.4 Bydd gan y Pwyllgor y pŵer i gadarnhau neu neilltuo penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Archwilio lle mae'n dod i'r casgliad bod y penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Archwilio wedi'i ail-ymgynnull yn afresymol neu na ellid ei gynnal gan ffeithiau'r achos.
- 4.5 Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Senedd a'r Cyngor ar argymhellion y Senedd i amddifadu unrhyw berson o, radd, diploma, tystysgrif neu wobwr academaidd arall y Brifysgol neu i adfer unrhyw person iddynt.
- 4.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:
 - budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
 - cynaliadwyedd
 - cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

5. Dull Gweithredu

- 5.1 Bydd y Pwyllgor yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd a'r Cyngor drwy'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

6. Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Ionawr 2023

Dyddiad a chorff cymeradwyo: Cyngor Chwefror 2022

I'w adolygu: 2023/24

PRIF BWYLLGORAU'R SENEDD

Cyfansoddiad Y Pwyllgor Safonau Ac Ansawdd Academaidd

1. Diben

1.1 Is-bwyllgor o'r Senedd a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr yw'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ac mae'n gyfrifol am gynghori'r Brifysgol ynghylch pob mater sy'n ymwneud â hyrwyddo ansawdd a safonau academaidd ar draws holl ystod darpariaeth y Brifysgol i fyfyrwyr.

2. Cyfansoddiad ac Aelodaeth

2.1 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| | |
|--|---|
| Aelodau | Swyddogion y Pwyllgor |
| Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr) | Pennaeth Llywodraethu Addysg |
| Is-Ganghellor | Cofrestrydd Academaidd |
| Un Deon y Coleg (Israddedig) Astudiaethau a benodir gan y Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr) | Pennaeth Ansawdd a Safonau Academaidd |
| Un Deon y Coleg (Ôl-raddedig) Astudiaethau a benodir gan y Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr) | Cyfarwyddwr yr Academi Dysgu ac Addysgu |
| Deon ar gyfer Cyflogadwyedd Myfyrwyr | Pennaeth Gweithrediadau'r Gofrestrfa |
| Chwe aelod o staff academaidd, dau o bob Coleg, sydd â phrofiad o reoli safonau academaidd a gweithdrefnau ansawdd, a benodir gan y Senedd | Rheolwyr Addysg y Coleg |
| Un aelod a benodir gan y Cyngor na fydd yn weithiwr neu'n fyfyrwr yn y Brifysgol | |
| Bydd tri myfyriwr, a benodir gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr, bydd o leiaf un ohonynt yn fyfyrwr ôl-raddedig | |

2.2 Nodiadau:

- Bydd y Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr) yn Gadeirydd y Pwyllgor.
- Y Pennaeth Llywodraethu Addysg fydd yr Ysgrifennydd
- Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau lleig neu bartion penodedig eraill fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd ar sail ad hoc.

3. Adeg Cynnal

3.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn academaidd.

4. Cylch Gorchwyl

4.1 Bydd y Pwyllgor yn:

- 4.1.1 datblygu a chadw dan adolygiad y strategaeth ansawdd academiaidd, rheoliadau, gweithdrefnau polisi a sicrhau ansawdd y Brifysgol, a'u gweithredu, a gwneud argymhellion arnynt i'r Senedd;
- 4.1.2 sicrhau bodolaeth a gweithrediad mecanweithiau ansawdd academiaidd mewnol priodol o fewn y Brifysgol a derbyn adroddiadau amdano; ac i gefnogi materion o'r fath bydd y Pwyllgor yn:
 - i. sicrhau gweithredu mecanweithiau sicrhau ansawdd a safonau mewn Ysgolion gan ddefnyddio gweithdrefnau Prifysgol cymeradwy;
 - ii. sicrhau y gweithredir y gweithdrefnau sicrhau ansawdd cymeradwy mewn perthynas â gwerthuso rhaglenni a addysgir yn flynyddol, yr adolygiad o raglenni a addysgir a'u a'u hailddilysiad;
 - iii. sicrhau y gweithredir y gweithdrefnau sicrhau ansawdd cymeradwy mewn perthynas ag adolygiadau blynyddol y Brifysgol o weithgarwch ymchwil ôl-raddedig;
 - iv. gwneud argymhellion priodol i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr neu'r Senedd, fel y bo'n briodol, yn codi o 4.1.2 i iii
- 4.1.3 gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr mewn perthynas â chyfleoedd gwella sy'n deillio o weithredu gweithdrefnau sicrhau ansawdd a safonau;
- 4.1.4 monitro'r amgylchedd sicrhau ansawdd a safonau allanol a sicrhau bod y Brifysgol yn ymateb fel y bo'n briodol; ac i gefnogi materion o'r fath bydd y Pwyllgor yn:
 - i. ystyried, mewn perthynas â rhaglenni a addysgir, adroddiadau o'r fath sy'n deillio o sicrwydd ansawdd allanol, asesu ansawdd, dilysu ac achredu gweithdrefnau ac adrodd a gwneud argymhellion amdanynt i'r Senedd;
 - ii. o ran cymeradwyo, monitro, adolygu a chofnodi rhaglenni astudio a addysgir, sicrhau bod y Brifysgol yn rhoi sylw dyladwy i Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru, Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru a Chod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU;
- 4.1.5 cyfrannu at hyrwyddo a gwella amgylchedd academiaidd sy'n ymwybodol o ansawdd yn y Brifysgol drwy ledaenu gwybodaeth, rhannu enghreifftiau o arfer da, a thrwy ddulliau priodol eraill; ac i gefnogi materion o'r fath bydd y Pwyllgor yn:
 - i. datblygu, gweithredu, goruchwyllo ac adolygu nodau, amcanion a pholisïau'r Brifysgol sy'n ymwneud â safonau academiaidd ei holl raglenni astudio addysgedig ac ymchwil;
 - ii. ystyried y cyfryw faterion ansawdd, safonau a rheoleiddio a all godi'n fewnol neu'n allanol sy'n gallu effeithio ar strategaethau'r Brifysgol;
 - iii. gwneud argymhellion priodol i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr neu i'r Senedd, fel y bo'n briodol, yn codi o 4.1.5 i hyd at ii
- 4.1.6 Ystyried a chymeradwyo adroddiadau sy'n deillio o weithredu gweithdrefnau'r Brifysgol mewn perthynas â chymeradwyo rhaglenni astudio newydd neu newidiadau mawr i raglenni sy'n bodoli eisoes
- 4.1.7 ystyried cynigion ar gyfer llunio, neu ddiwygio Rheoliadau Academiaidd ac eithriadau iddynt, a gwneud argymhellion i'r Senedd amdanynt;
- 4.1.8 sefydlu, fel y bo'n briodol, yr Is-bwyllgorau hynny neu grwpiau tasg-ganolog eraill sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei rôl.

4.2 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ansawdd blynyddol i'r Senedd a'r Cyngor i lywio'r sicrwydd blynyddol a ddarperir i'r corff rheoleiddio.

4.3 Mae gan y Pwyllgor awdurdod i gymeradwyo argymhellion mewn perthynas â'r canlynol:

4.3.1 cymeradwyo rhaglenni gradd newydd ac amrywiadau i raglenni gradd presennol;

4.3.1 amrywiadau i reoliadau a pholisïau'r Senedd mewn ymateb i raglen benodol neu achosion sy'n gysylltiedig â myfyrwyr.

5. Dull Gweithredu

5.1 Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu'r Is-bwyllgorau canlynol:

- i. Is-Bwyllgor Rhaglenni ac Ailddilysu
- ii. Is-bwyllgor Partneriaethau Addysg
- iii. Grŵp Polisiâu Derbyn Myfyrwyr

5.2 Bydd y grwpiau canlynol yn adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr:

- i. Pwyllgorau Addysg Colegau a Phrofiad Myfyrwyr;
- ii. Grŵp strategaeth ôl-raddedig ymchwil

5.3 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno Adroddiad Ansawdd Blynyddol i'r Senedd a'r Cyngor.

5.4 Bydd y pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:

- budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd
- cynaliadwyedd
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

6. Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Medi 2022

Dyddiad a chorff cymeradwyo: Cyngor 24 Tachwedd 2022 a Senedd 30 Tachwedd 2022

I'w adolygu: Tachwedd 2023

Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr

1. Diben

- 1.1 Bydd y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, un o is-bwyllgorau'r Senedd, yn gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol ac am chynghori'r Brifysgol ar bob mater sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad myfyrwyr ar draws ystod lawn ei darpariaeth i fyfyrwyr.

2. Cyfansoddiad ac Aelodaeth

- 2.1 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

| Aelodau | Swyddogion y Pwyllgor |
|--|---|
| Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr) | Pennaeth Llywodraethu Addysg |
| Is-Ganghellor | Cyfarwyddwr yr Academi Dysgu ac Addysgu |
| Deon y Coleg (Astudiaethau Israddedig) ym mhob Coleg | Rheolwr Busnes y Rhag Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr |
| Deon y Coleg (Astudiaethau Ôl-raddedig) ym mhob Coleg | Pennaeth Gweithrediadau'r Gofrestrfa |
| Deon ar gyfer Cyflogadwyedd Myfyrwyr | Rheolwyr Addysg y Coleg |
| Deon y Gymraeg | Llyfrgellydd y Brifysgol |
| Cofrestrydd Academaidd | |
| Cyfarwyddwr yr Adran Cynllunio Strategol | |
| Chwe aelod o staff academaidd, dau o bob Coleg, sydd â phrofiad o reoli safonau academaidd a gweithdrefnau ansawdd, a benodir gan y Senedd | |
| Un aelod a benodir gan y Cyngor na fydd yn weithiwr neu'n fyfyrwr yn y Brifysgol | |
| Bydd tri myfyrwr, a benodir gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr, bydd o leiaf un ohonynt yn fyfyrwr ôl-raddedig | |

- 2.2 Nodiadau:

- .1 Y Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr) fydd yn Gadeirydd y Pwyllgor.
- .2 Y Pennaeth Llywodraethu Addysg fydd yr Ysgrifennydd.
- .3 Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd gwahoddir Swyddogion eraill y Brifysgol, aelodau llewg neu bartion penodedig eraill fel y bo'n briodol, i fynychu cyfarfodydd ar sail ad hoc.

3. Adeg Cynnal

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn academaidd.

4. Cylch Gorchwyl

- 4.1 Bydd y Pwyllgor yn:

- 4.1.1 datblygu a pharhau i adolygu'r is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr a gwneud argymhellion amdani i'r Senedd;
- 4.1.2 sicrhau gweithredu'r Is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr a gwerthuso ei heffaith a'i heffeithiolrwydd;

- 4.1.3 hyrwyddo arloesedd a gwelliannau ym maes addysg ac asesu;
- 4.1.4 hyrwyddo'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff er mwyn cefnogi dulliau addysgu ac asesu;
- 4.1.5 Mae'r pwyllgor yn gwerthuso canlyniadau arolygon myfyrwyr ac effaith gwelliannau i brofiad myfyrwyr.
- 4.1.6 parhau i adolygu a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd strategaethau sy'n ymwneud ag addysg a myfyrwyr, gan gynnwys y strategaeth ehangu cyfranogiad;
- 4.1.7 darparu goruchwyliaeth dros adrodd i CCAUC a Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag addysg a myfyrwyr.
- 4.2 Bydd y Pwyllgor yn sefydlu, fel y bo'n briodol, yr Is-bwyllgorau hynny neu grwpiau tasganolog eraill sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei rôl
- 4.3 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd ar weithgareddau i wella profiad myfyrwyr.

5. Dull Gweithredu

5.1 Mae'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr wedi sefydlu'r is-bwyllgorau canlynol:

- i. Addysgu sy'n Ysbrydoli
- ii. Dyfodol Myfyrwyr
- iii. Bywyd Myfyrwyr
- iv. Llais a Phartneriaeth Myfyrwyr
- v. Y Bwrdd Ehangu Cyfranogiad

5.2 Bydd y grwpiau canlynol yn adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr:

- i. Pwyllgorau Addysg Colegau a Phrofiad Myfyrwyr;
- ii. Grŵp strategaeth ôl-raddedig ymchwil
- iii. Grŵp Goruchwyllo Perfformiad Addysg

5.3 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y canlynol ym mhob mater:

- budd y myfyrwyr a budd y cyhoedd;
- cynaliadwyedd;
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

6. Rheoli Fersiynau

Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2022

Dyddiad a chorff cymeradwyo: Cyngor 24/11/2022, Senedd 30/11/2022

I'w adolygu: Hydref 2023